

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2021 No. 481**

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

**RHAN 6**

**DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG  
(CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018**

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018**

**151.** Yn Atodlen 5, ym mharagraff 4 (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academiaidd)—

(a) yn is-baragraff (2)—

(i) ym mharagraff (aa), ar ôl “sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67” mewnosoder “neu'n berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir”;

(ii) ar ôl paragraff (aa) mewnosoder—

“(ab) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd Calais;”;

(iii) hepgorer paragraff (b);

(iv) yn lle paragraff (c) rhodder—

“(c) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu a ddisgrifir ym mharagraff 6A(1)(a), 6C(1)(a) neu 6D(1)(a) o Atodlen 2;”;

(v) yn lle paragraff (e) rhodder—

“(e) pan fo rheoliad 9(1A)(a) yn gymwys, bod y person yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 8(1)(a) o Atodlen 2;”;

(vi) ym mharagraff (f), ar ôl “a ddisgrifir ym” mewnosoder “mharagraff 4A(1)(a) o Atodlen 2 neu, pan fo rheoliad 9(1A)(a) yn gymwys, ym”;

(vii) yn lle paragraff (g) rhodder—

“(g) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 7A(a) o Atodlen 2 neu, pan fo rheoliad 9(1A)(a) yn gymwys, ym mharagraff 7(1)(a) o Atodlen 2;”;

(viii) ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

“(h) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6B(1)(a)(ii) o Atodlen 2;”;

(b) yn is-baragraff (3)—

(i) hepgorer ““plentyn” (“*child*”);

(ii) yn y cofnod ar gyfer “aelod o deulu”, hepgorer “(o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 6(5) o Atodlen 2);

(iii) hepgorer ““hawl i breswyllo'n barhaol” (“*right of permanent residence*”);

- (iv) hepgorer ““gweithiwr Twrcaidd” (“*Turkish worker*”);
- (v) yn y lle priodol mewnosoder—
  - ““person sydd â chaniatâd Calais” (“*person with Calais leave*”);”;
  - ““person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir” (“*person granted leave to remain as a protected partner*”);”.